


Cylchlythyr Fforwm Ieuenctid y Fro

Crëwyd gan aelodau'r Fforwm



Helo gan gadeirydd ac is-gadeirydd Fforwm Ieuenctid y Fro. Croeso i gylchlythyr y gaeaf ar gyfer Ionawr i Fawrth 2018. Rydym wedi cael nifer o siaradwyr gwadd yn dod i'n cyfarfodydd y tymor hwn, a chael gwybod barn pobl ifanc ar y gwasanaethau y maen nhw'n eu rhoi, sydd wedi bod yn gyfle gwych. Hoffem longyfarch yr aelodau newydd a gwblhaodd yr hyfforddiant sefydlu gan obeithio eu bod yn mwynhau bod yn rhan o FfIF.

Rolau FfIF:

- Nikita Harrhy – Swyddog Cyfryngau
- Isaac Cramb – Swyddog Amrywiaeth a Chydaddoldeb
- Ushenka Rajapakse – Aelod o Senedd Ieuenctid y DU
- Ben Lloyd – Dirprwy Aelod o Senedd Ieuenctid y DU
- Rhys Powell – Cynrychiolydd Cymru Ifanc
- Osian Boland – Cynrychiolydd Cymru Ifanc
- Nishenka Rajapakse – Cynrychiolydd Cymru Ifanc

Ar ddechrau'r tymor cymrodd aelodau ran mewn diwrnod adeiladu tîm yn Quasar Ynys y Barri. Roedden ni wedi bwriadu mynd i sgleftio iâ ym Mharc yr Iâ yn y Barri ym mis Rhagfyr ond yn anffodus caeodd cyn ein cyfarfod diwethaf. Yn Quasar gweithion ni mewn timau a brwydro i ennill tiriogaeth y llall. Cawsom lawer o hwyl ac roedd yn ffordd wych o ddod yn ôl at ein gilydd ar ôl egwyl y Nadolig. Diolch i'r ymddiriedolwyr!

Y peth cyntaf ar y rhestr hon y tymor hwn oedd codi mater trafndiaeth. Dewisodd pobl ifanc y Fro hwn fel y brif flaenoriaeth i bobl ifanc yn y bleidlais Gwneud Eich Marc. Gwnaethom wahodd Rheolwr Grŵp gwasanaethau trafndiaeth y Cyngor i ddod i un o'n cyfarfodydd i ddysgu mwy am drafndiaeth leol. Dysgom am wasanaethau masnachol gwahanol Bws Caerdydd, N.A.T a First, gwasanaethau sy'n cael cymorth ariannol gan y Cyngor a thrafnidiaeth gymunedol Greenlinks. Gan fod Greenlinks yn dibynnu ar wirfoddolwyr i roi'r gwasanaeth, dydy'r gwasanaeth ddim yn darparu i bobl ifanc a phobl hŷn o gefn gwlad sy'n defnyddio'r gwasanaeth gan mwyaf. Cawsom gyfle i fynegi'r pryderon a godwyd gan bobl ifanc am gostau trafndiaeth a pha mor aml mae bysus yn rhedeg. Gwnaethom hefyd ddysgu am system newydd Metro De Cymru a sut y bydd gwasanaethau'n cael eu cydlynu ac y byddent, gobeithio, yn fwy effeithlon. Roeddem hefyd yn gallu dosbarthu'r arolwg boddhad trafndiaeth blynyddol a gynhaliwyd gan y Cyngor i sicrhau y gallai cynifer o bobl ifanc â phosibl gyfrannu.



Cyfarfu'r grŵp gorchwyl Trais Ieuenctid â gweithwyr proffesiynol o Addysg, y Gwasanaethau Ieuenctid, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (GTI) i ddysgu mwy am y mater a godwyd yn y cyfarfod. Trafododd y Sarsiant Wayne Lock ystadegau diweddar a ddangosodd fod y Fro'n un o'r llefydd mwyaf diogel i fyw ynddo, yn enwedig fel person ifanc. Dysgom sut mae ysgolion yn cefnogi pobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan drais, y gweithdrefnau i'w dilyn, a dywedodd y Cydlynnydd Atal o'r GTI wrthym am y gwaith y gwnaiff ei thîm i helpu pobl ifanc yn ôl i'r llwybr cywir. Aethom â chwis yn ôl i'r aelodau a amlygodd rhai o'r ystadegau allweddol am droseddau ieuencid yn y DU.

Roedd Ionawr yn fis prysur i Aelodau Senedd Ieuenctid y DU (ASI) a fynychodd Confensiwn 3 i ddysgu mwy am flaenoriaethau'r ymgyrch: Pleidleisiau 16 oed a'r Cwricwlwm am Oes. Daeth ASlau o Gymru benbaladr ynghyd i greu cynllun. Ar ddiwedd y mis gwnaethom hefyd gymryd rhan yn y Diwrnod Gweithredu gan ledaenu'r neges i swyddogion penderfynu lleol a chenedlaethol. Rydym wedi cyflwyno adroddiad i'r Cyngor yn gofyn am gynnig i gefnogi Pleidleisiau 16 oed mewn etholiadau lleol.





Cylchlythyr Fforwm Ieuenctid y Fro

Crëwyd gan aelodau'r Fforwm

Ion - Mawrth 2018



Llongyfarchiadau i'n haelodau newydd sydd wedi cwblhau hyfforddiant sefydlu FfIF yn hanner tymor mis Chwefror. Edrychodd y sesiwn ar rolau a chyfrifoldebau aelodau, nod y FfIF, gwasanaethau'r Cyngor a sefydliadau eraill, yn ogystal â thrafod lefelau penderfynu gwahanol o benderfyniadau lleol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Lywodraeth y DU. Cawsom hefyd weithdy ar CCUHP a roddwyd i Genhadon Hawliau'r Fro. Roedd llawer o wybodaeth i'w deall ond bydd yn ein helpu wrth i ni geisio cynrychioli barn pobl ifanc yn ein cymuned orau y gallwn.

Roedd hi bron flwyddyn yn ôl i Barnardo's ymweld yn gyntaf â FfIF achos law nhw oedd darparwr newydd y gwasanaeth cwnsela ysgolion a chymunedol. Roeddem yn hapus i siarad â nhw eto yn Chwefror i ddiweddarau'r gwasanaeth. Gallem weld nifer y bobl ifanc sy'n cael cwnsela, y broses atgyfeirio, y prif broblemau mae pobl ifanc yn eu hwynebu, a'r rhestr aros mewn ysgolion. Gallem awgrymu ffyrdd newydd o hyrwyddo'r gwasanaeth a sut i fynd i'r afael â rhai o'r problemau â'r rhestr aros. Mae un aelod wedi ymuno â'r grŵp llywio, sy'n cwrrd bob tymor i drafod cynnydd, a gall roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni, sy'n ddefnyddiol.



Hoffem hefyd ddiolch i Jane Hutt AC a gyflwynodd Wobrau Gwirfoddolwr Mileniwm a Star i nifer o aelodau. Mae'r wobr yn cydnabod cyfraniad aelodau i FfIF a'r gymuned leol. Cafodd aelodau 50, 100 a 200 awr o wirfoddoli.



Codwyd pryderon yn gyntaf gan ein swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth am ddeuwis cydradd yn y cwricwlwm AG tymor diwethaf, ond mae bellach wedi cynnal gwe sgwrs â Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyfrannodd y we-sgwrs at yr Ymchwiliad i Weithgarwch Corfforol a gynhaliwyd gan y pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.

Y tymor yma aeth cynrychiolwyr Cymru Ifanc i ddigwyddiad dathlu Cymru Ifanc yn Amgueddfa Caerdydd. Siaradai Aelodau â Chomisiynydd Plant Cymru a'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i godi rhai pryderon e.e. Bac Cymru. Yn y digwyddiad cafwyd llawer o stondinau gwybodaeth a gweithdai. Roeddem wedi helpu i benderfynu ar y logo newydd i Senedd Ieuenctid Cymru a rhoi ein barn ar y polisi pleidleisio arfaethedig.



Hefyd y tymor hwn rhoddodd aelodau Cenhadon Hawliau'r Fro gyflwyniad i FfIF am Safonau Cyfranogi Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc. Mae'r 7 safon yn sicrhau bod sefydliadau'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn ffordd gywir. Rydym yn gobeithio y gall ymddiriedolwyr FfIF gofrestru â'r Siarter newydd sy'n cael ei gwneud gan Blant yng Nghymru.